| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Pensiynau** |
| DYDDIAD | **9 Tachwedd 2017** |
| TEITL | **Bwrdd Pensiwn - Ad-dalu Treuliau, Tâl a Lwfansau** |
| AWDUR | **Y Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol** |

---

**1.** Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, mae grym wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau ymrwymo i wariant sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn a Chronfa Bensiwn Gwynedd.

**2.** Sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Cyngor Gwynedd ers mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn yn bwriadu sicrhau na fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd allan o boced o ganlyniad i'w haelodaeth. Mae'r argymhelliad isod yn ceisio cael gwared ag anfanteision posibl i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, a digwyddiadau cymeradwy, tra'n osgoi darparu cymhelliant ariannol yn unig i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

**3. Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau benderfynu:**

i. Talu lwfans i Gynrychiolwyr Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun am fynychu cyfarfodydd yn ymwneud â busnes y Bwrdd Pensiwn (gan gynnwys mynychu hyfforddiant) ar y cyfraddau gosodwyd ar gyfer aelodau annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a'r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd.

ii. Ni fydd unrhyw lwfans yn cael ei dalu os yw'r aelod o'r Bwrdd yn cyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb ostyngiad mewn tâl. Ar gyfer Cynghorwyr sydd wedi'u penodi i'r Bwrdd, byddai'r rôl yn rhan o wahanol benodiadau'r cyngor y maen nhw'n eu cymryd. Felly, mae'n fater i'r Cyngor penodol sy'n gwneud y penodiad i ystyried sut y dylid ymdrin â chyfrifoldebau aelodaeth fel rhan o'u Cynllun Lwfans Aelodau perthnasol.

iii. Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn hawl i hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau gosodwyd i aelodau annibynnol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd a'r aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd. Bydd yr holl gostau (lwfans am fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn, lle'n briodol, ynghyd â lwfansau teithio a chynhaliaeth) yn cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn.

**4.** Cyfeirir at lwfansau teithio a chynhaliaeth uchod er cyd-destun a chyflawnrwydd penderfyniad y Pwyllgor Pensiynau. Mae'r rheiny eisoes yn daladwy ac yn cael ei hawlio. Amcangyfrifir byddai'r gost ychwanegol o weithredu'r polisi uchod yn llai na £2,000 y flwyddyn.